# <u>Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar | Cofnodion</u>

*Dydd Llun, 10:30, 21 Mehefin 2021* – drwy Zoom

<u>**Yn bresennol**</u>

**Mark Isherwood** – AS
**Mike Hedges –** AS
**Peredur Owen Griffiths –** AS
**Heledd Roberts –** Ar ran Rhun ap Iowerth
**Callum Mclean** – Cofnodwr, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Debbie Thomas** – Pennaeth Polisi a Dylanwadu yng Nghymru, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
**George Baldwin** – Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
**Karen Robson** – Cyfarwyddwr, Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
**Michelle Fowler-Powe** – Cydgysylltydd Mynediad a Chynhwysiant, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
**Nicola George** – Awdiolegydd, BIP Caerdydd a'r Fro
**Nigel Williams** – Grŵp Cymorth Mewnblaniad yn y Cochlea De Cymru
**Sarah Angove** – Athro Pobl Fyddar, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar
**Cathie Robins-Talbot** – CRT Consultant/Talking Hands
**Sue Williams** – Aelod Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion/Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
**Bond Jacqui** – Gweithiwr Cymdeithasol
**Alison Bryan**

<u>**Cymorth cyfathrebu**</u>

**Hilary Maclean** – Adroddwr Llais i Destun
**Rachel Williams** – Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain

<u>**Ymddiheuriadau**</u>

**Louise Sweeney** – Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Anthony Evans** – Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
**Sarah Thomas** – Rheolwr-gyfarwyddwr, Y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain
**Dr Rob Wilks** – Darlithydd, Prifysgol De Cymru
**Stephen Brattan-Wilson** – Aelod Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion/Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain

<u>*Gan mai cyfarfod cychwynnol oedd hwn i ddiwygio'r grŵp, cadeiriwyd y cyfarfod gan Callum, yr ysgrifenyddiaeth bresennol, nes i gadeirydd gael ei ethol yn ffurfiol*</u>

Dechreuodd y **Cadeirydd** drwy ofyn i bawb gyflwyno ei hun, yn ogystal ag esbonio ei rôl yn y grŵp.

## Y prif faterion yr hoffai'r Grŵp fynd â hwy yn eu blaen yn nhymor y Senedd hon

Dechreuodd **Debbie** drwy dynnu sylw at dri phrif bwynt:

1. Y Diwygiadau Anghenion Ychwanegol – Disgwylir iddynt gael eu gweithredu ym mis Medi 2021, mae angen cadw llygad arnynt fel grŵp rhag ofn y bydd camddehongliad o ddeddfwriaeth
2. Iaith Arwyddion Prydain – Siarter Iaith Arwyddion Prydain ynghylch teuluoedd sy'n dysgu Iaith Arwyddion Prydain
3. Covid-19 – Anawsterau gyda mygydau wyneb/darllen gwefusau, dysgu o bell a mwy.

Ychwanegodd **Sarah** fod gan Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar bryderon tebyg, gan nodi annhegwch y ddarpariaeth ar draws awdurdodau addysgol gwahanol y mae Covid-19 wedi tynnu sylw ato. Mae hyn, ar y cyd â chynlluniau tymor hir posibl ar gyfer dysgu 'cyfunol', a fyddai'n cynnwys dysgu ar-lein ac yn bersonol, wedi codi pryderon sylweddol oherwydd y ffordd y byddai'r myfyrwyr yn cael cymorth. Roeddent hefyd yn holi a ellid defnyddio safonau ansawdd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar i fesur darpariaethau gwasanaethau ac adnoddau, gan sicrhau tegwch a chydraddoldeb ar draws yr awdurdodau lleol gwahanol.

Tynnodd **Jacqui** sylw at y gwaith parhaus gyda Grŵp Cymru Gyfan ar Fyddardod, Iechyd Meddwl a Llesiant, lle y bydd adroddiad yn cael ei lunio'n fuan o'r enw Pobl Fyddar yng Nghymru – Anghydraddoldeb Cudd. Mae'r adroddiad yn dangos bod pobl Fyddar yng Nghymru y mae arnynt angen gofal iechyd meddwl cleifion mewnol yn dal i orfod mynd i Loegr ar gyfer gwasanaethau. Bydd yr adroddiad llawn ar gael i'r grŵp pan fydd wedi'i gwblhau.

Cyfeiriodd **Mark** at ei fil Iaith Arwyddion Prydain arfaethedig, ac ychwanegodd y fod y grŵp o bosibl yn ymwybodol o unigolyn sydd wedi bod yn cysylltu ag Aelodau o'r Senedd yn gwrthwynebu'r bil yn gryf, ac yn gwneud sylwadau ar gymhellion yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar. Codwyd yr honiadau hyn fel y gall y grŵp wneud sylwadau arnynt yn y dyfodol os oes angen. Yn ail, gwnaeth Mark sylw ei fod wedi bod mewn cysylltiad, ac wedi cael cyfarfod ar-lein, â Chymdeithas Tiwtoriaid a Gweithwyr Proffesiynol Iaith Arwyddion Prydain ar ôl y bleidlais ar y bil arfaethedig y tymor diwethaf. Yn ystod y cyfarfod, nododd y grŵp yr hoffai weithio gyda'r Grŵp Trawsbleidiol hwn ar ddeddfau arfaethedig a biliau arfaethedig, yn ogystal â'u galwad am gofrestriad cenedlaethol ar gyfer athrawon a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, ac ychwanegodd y gall fod yn ddefnyddiol i'r grŵp drafod hyn ar a'i roi ar agendâu yn y dyfodol.

Nododd **Sue** ei bod yn dirprwyo ar ran Stephen Brattan-Wilson, a thynnodd sylw at y pryder sydd gan ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ynghylch anghydraddoldeb darpariaeth ymhlith meddygon teulu ac ysbytai sydd â mynediad at ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn ystod y pandemig. Esboniodd y byddai gan rai meddygon teulu fynediad at wasanaeth dehongli o bell, pan na fyddai hyn gan eraill, neu y byddai'r meddyg teulu yn ffonio'r dehonglwr, ac y byddai'r dehonglwr, ar yr un pryd, yn ffonio'r claf ar fideo drwy ddefnyddio ei gyfarpar ei hun. Yn lle hyn, byddai'n well rhoi gwasanaeth ar waith fel fideoalwad dairffordd neu wasanaethau tebyg y gallai'r GIG eu gweithredu. Hefyd, rhoddwyd enghraifft lle galwyd ar Sue yn ddiweddar i fynd i apwyntiad ysbyty brys, lle nad oedd y staff yn gwybod am y defnydd o iPads, pan honnir bod gan y bwrdd iechyd penodol ddarpariaethau iPad ar waith am yr union reswm hwn.

Tynnwyd sylw at hygyrchedd hefyd. Nid yw pobl Fyddar wedi gallu cysylltu â'u meddygon teulu/gweithwyr iechyd proffesiynol oherwydd bod apwyntiadau dros y ffôn yn unig, neu fod angen ffonio i drefnu apwyntiad yn y lle cyntaf.

Ychwanegodd **Michelle** eu bod wedi sylwi ar lawer o achosion o hyn y mae'r gymuned Iaith Arwyddion Prydain wedi'u hadrodd iddynt. Soniwyd am restr wirio safonau a greodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain flynyddoedd ynghynt, a nododd yr hyn y mae'r byrddau iechyd wedi bod yn ei wneud yn dda, a pha weithdrefnau sy'n helpu neu'n rhwystro mynediad i bobl Fyddar. Ychwanegodd Michelle fod rhai achosion megis argyfyngau, yn gwarantu dehongli ar-lein, ond mae dehongli wyneb yn wyneb yn fwy addas oherwydd natur y neges.
Cytunodd **Callum** ac ychwanegodd fod y pandemig a hygyrchedd yn mynd law yn llaw wrth dynnu sylw at ddiffygion a chryfderau mynediad a thechnoleg cyfathrebu.

Cytunodd **Karen** â'r holl ddatganiadau a wnaed yn flaenorol ac ychwanegodd ei fod yn rhywbeth yr hoffai ei godi i Fwrdd Prosiect Clyw Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r bwrdd gyfarfod ymhen cwpl o wythnosau a bydd yn edrych ar y fframwaith awdioleg ac effaith pobl â cholled clyw yn cael mynediad at ddisgyblaethau meddygol eraill i sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen.
Hefyd, ychwanegwyd eu bod yn synnu bod rhywfaint o wrthwynebiad i fil Iaith Arwyddion Prydain Mark, ac nad yw'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar wedi cael adborth negyddol yn ei gylch. Yna, awgrymodd Karen fod y grŵp yn mabwysiadu safbwynt clir ein bod yn cefnogi ac yn eirioli dros gydraddoldeb Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â phob math arall o gymorth cyfathrebu cydnabyddedig, megis adroddwyr llais i destun, dehonglwyr DallFyddar, cyfieithwyr, cymerwyr nodiadau a gwefuslefaryddion.

Gwiriodd Callum a hoffai unrhyw un arall wneud sylwadau ychwanegol neu gynnig materion sefydlog ar gyfer agendâu cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Ethol Ysgrifenyddiaeth

Trafododd y grŵp ysgrifenyddion posibl, a phleidleisiodd pob aelod o'r grŵp a oedd yn bresennol dros Callum.

## Ethol Cadeirydd

Cynigiwyd Mark Isherwood yn gadeirydd. Eiliwyd hyn gan Mike Hedges a Peredur Owen Griffiths. Mark Isherwood fydd cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar yn ystod tymor hwn y Senedd.

*Llongyfarchwyd Mark a Callum.*

## Unrhyw fater arall

Nododd **Debbie** ei bod yn hapus gweld nifer o Aelodau o'r Senedd yn bresennol, ac awgrymodd y dylid nodi rhywfaint o'r hyn a drafodwyd mewn e-bost at bob Aelod o'r Senedd cyn cyfarfodydd yn y dyfodol i weld a hoffai aelodau eraill ymuno. Cytunodd Callum a dywedodd y byddai'n trafod hyn â thîm Mark.

Tynnodd **Sue** sylw bod y pandemig a mynediad at wasanaethau wedi bod yn anodd iawn i ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â phawb arall, gan nodi'n benodol anawsterau technegol gweithio ar-lein gyda'u cyfarpar eu hunain, y llwyth gwybyddol ychwanegol a'r gallu canolbwyntio sydd ei angen ar-lein, gofal plant, gorfod gweithio gartref, a soniodd fod rhai dehonglwyr yn ystyried newid gyrfa am y bu'n flwyddyn mor anodd iddynt. Mae'n credu, pan fydd

dehongli wyneb yn wyneb wedi'i adfer fel y prif ddefnydd o ddehongli, y bydd hyn yn gostwng straen y dehonglwr a'r cleifion, gan yr ystyrir llawer o arlliwiau megis iaith y corff wrth ddefnyddio dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain.

Cytunodd **Sarah** â Sue, ac ychwanegodd fod dysgu rhithwir wedi bod yn arbennig o anodd i blant, a'u bod yn pwyso i'w holl fyfyrwyr Byddar ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

Mewn cyferbyniad, nododd **Alison**, gan ei bod yn byw mewn ardal wledig, fod y dehonglwr agosaf ati'n byw ddwy awr i ffwrdd, felly mae gallu cael mynediad at wasanaeth dehongli ar-lein wedi bod o fudd mewn gwirionedd, ond mae'n cydnabod nad dyma'r un sefyllfa i bawb ac y dylai'r opsiwn ar gyfer dehongli ar-lein neu'n bersonol fod ar gael bob amser pan fo hynny'n bosibl.

*Daeth y cyfarfod i ben.*